Rhif: WG29100

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol ynghylch cynlluniau ardal yn dilyn yr asesiad poblogaeth

Chwefror 2017

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8665-2

# Rheoliadau a Chanllawiau Statudol yn ymwneud â chynlluniau ardal yn dilyn yr asesiadau poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

**Cynnwys** **Tudalen**

Adran 1


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 2 |
| Y Cynnig | 3 |
| Yr Ymgynghoriad | 3 |
| Digwyddiad ymgysylltu | 4 |


Adran 2


| | |
|---|---|
| Ymateb cyffredinol | 5 |
| Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr | 14 |

## Adran 1

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn ymdrin â'r canllawiau a'r rheoliadau statudol drafft sy'n ymwneud â'r cynlluniau ardal sy'n ofynnol o dan adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Cafodd Deddf 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

Mae Rhan 2, adran 14 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILl) gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth pobl, anghenion cymorth gofalwyr a gwasanaethau ataliol. Mae rheoliadau ategol a gyhoeddwyd o dan Ran 9 o Ddeddf 2014 a'r Cod Arfer yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol mewn ardal BILl ffurfio partneriaeth â'r BILl hwnnw. Bydd hyn yn caniatáu i adroddiad cyfunol gael ei wneud ar yr asesiad poblogaeth.

Mae Adran 14A o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a BILl lleol baratoi a chyhoeddi cynllun ardal sy'n nodi amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y maen nhw'n bwriadu eu darparu, neu'n trefnu i'w darparu, mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth ar y cyd.

Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sicrhau bod y strwythurau (trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth) a'r adnoddau (gan gynnwys cronfeydd cyfun) priodol ar waith i alluogi gwasanaethau integredig i gael eu darparu. Mae'r rheoliadau ategol yn darparu ar gyfer saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar ôl troed y BILl, a'u diben yw gwella canlyniadau llesiant pobl a gwella effeithlonrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol gan sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn ymateb i'r adroddiadau ar yr asesiad poblogaeth a rhoi'r cynlluniau ardal hyn ar waith.

### Cefndir

Mae'r trefniadau sy'n ymwneud â chynlluniau ardal yn adlewyrchu fframwaith statudol ehangach Deddf 2014. Mae'r rhain yn cynnwys tair prif elfen: y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf a'r codau arfer/canllawiau statudol. Mae'r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith a defnyddiwyd ers mis Ebrill 2016 i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Bydd y canllawiau statudol i gefnogi cynlluniau ardal yn cael eu cyhoeddi ar 10 Chwefror 2017, ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) ("y rheoliadau cynllunio ardal"). Bydd y rheoliadau cynllunio

ardal hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn gysylltiedig â'r rheoliadau hynny mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiad) (Cymru) ("rheoliadau partneriaeth 2017"), a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac a fydd yn cael eu trafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Mawrth 2017.

Mae'r canllawiau statudol a'r rheoliadau wedi'u hamserlennu i ddod i rym ar 1 Ebrill 2017.

**Y Cynnig**

Diben cynlluniau ardal yw darparu disgrifiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y cynigir eu darparu, neu eu trefnu, i ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn yr adroddiadau asesiad poblogaeth ar y cyd.

Mae'n rhaid i gynlluniau ardal gynnwys y gwasanaethau y bwriedir eu darparu mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth, gan ganolbwyntio ar weithio integredig. Yn rhan o hyn, mae'n rhaid i gynlluniau ardal gynnwys:

- y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd o ran yr ardaloedd integreiddio blaenoriaethol ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol;
- nifer y cronfeydd cyfun i'w sefydlu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth a manylion y rhain;
- sut y bydd gwasanaethau yn cael eu caffael neu eu trefnu i gael eu darparu, gan gynnwys modelau darparu eraill;
- manylion y gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;
- y camau sy'n cael eu cymryd ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth; a'r
- y camau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Yr Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol dros ddeuddeg wythnos rhwng 3 Gorffennaf a 3 Hydref 2016 ar y canllawiau statudol a'r rheoliadau drafft. Cafwyd 27 o ymatebion ysgrifenedig o sylwedd i'r ymgynghoriad oddi wrth amrywiaeth eang o sefydliadau statudol, grwpiau o'r trydydd sector a chyrff proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd unigol, Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a gyflwynodd ymateb ar y cyd.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan gyda'r awgrymiadau yn canolbwyntio ar faterion a oedd yn ymwneud â manylion, ychwanegiadau bychain a diwygiadau i'r testun. Derbyniwyd y rhan helaeth

o’r awgrymiadau hyn gan y credwyd eu bod yn cyd-fynd â’r safbwynt polisi eang.

Mae’r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad, sy’n nodi manylion yr ymatebion i bob un o’r cwestiynau a sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt, wedi’i gyhoeddi yma:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Mae rhestr lawn o ymatebwyr wedi’i hatodi yn Atodiad A. Gellir gweld crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru, yn Adran 2.

**Digwyddiad Ymgysylltu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau i gefnogi gweithrediad Deddf 2014. Y nod oedd cyflawni'r arferion a’r newid diwylliannol sydd yn cael eu sbarduno gan y Ddeddf.

Cafodd cynrychiolwyr o bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru eu gwahodd i ddigwyddiad yng Nghaerdydd ar 9 Medi i drafod cynnwys yr ymgynghoriad ar y cynllun ardal yn fanwl ac i amlygu unrhyw faterion a oedd angen eglurhad pellach cyn i’r ymgynghoriad ddod i ben.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn y digwyddiad hwn yn adlewyrchu yn gyffredinol y sylwadau a gafwyd yn ymatebion yr ymgynghoriad, a gellir eu gweld yn y dadansoddiad o’r ymgynghoriad yn Adran 2.

## Adran 2 – Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

## Ymateb Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'n fras y cynigion a gyflwynwyd yn y canllawiau statudol a'r rheoliadau drafft. Yn gyffredinol, roedd yr awgrymiadau a wnaed gan yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â manylion, ychwanegiadau bychain a diwygiadau i'r testun o fewn y canllawiau statudol.

## Cwestiwn 1:

| | **1. A yw diben y cynlluniau ardal yn glir?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Cytuno i raddau | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 7 | 12 | 1 | 1 | 6 |

**Crynodeb**

Credai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod diben y cynlluniau ardal yn glir ac roedd llawer, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn croesawu'r dull cyffredinol a gymerir i symud tuag at ddull cynllunio mwy integredig.

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC amlygu'r cyswllt rhwng y cynlluniau ardal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LlCD") gan ddweud y dylai'r canllawiau statudol nodi'r cysylltiadau rhwng y gofynion cynllunio yn y ddwy Ddeddf yn fwy manwl.

Hefyd, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, at y berthynas rhwng y cynlluniau ardal a chynlluniau a strategaethau awdurdod lleol ac iechyd eraill. Amlygwyd bod angen rhagor o eglurhad o ran y cysylltiadau â'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) a'r strategaethau sy'n ofynnol dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gwnaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru hefyd nodi amwyster posibl yn y canllawiau drafft o ran ôl troed y cynllun ardal gan ddweud y dylai'r canllawiau fod yn fwy cyson o ran sut y nodir hyn.

Argymhellodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC y dylai'r gwasanaethau ataliol presennol a pharhaol sydd ar waith fod yn elfen bwysig a gynhwysir mewn cynlluniau ardal.

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd defnyddio iaith syml o fewn y dogfennau ymgynghori.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r canllawiau drafft wedi'u hehangu i egluro'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau ardal a'r cynlluniau llesiant lleol sydd eu hangen o dan Ddeddf LlCD yn fwy manwl. Yn benodol, mae'r canllawiau drafft bellach yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sicrhau amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd i'w caffael mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth mewn cynlluniau ardal, ac ategir yr amcanion ar gyfer gwella llesiant yr ardal sydd mewn cynlluniau llesiant lleol.

Mae'r adran 'cynnwys a chyflwyniad cynlluniau ardal ar y cyd' yn y canllawiau drafft hefyd wedi'i diweddaru er mwyn egluro y bydd gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y thema graidd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cynnwys yn y cyd-strategaethau lleol ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gellir cyfeirio at y strategaethau hyn yn y cynllun ardal ar y cyd.

Mewn ymateb i'r adborth mae'r canllawiau drafft hefyd wedi'u hegluro i ddweud bod yn rhaid i gynlluniau ardal nodi'r gwasanaethau ataliol y bwriedir eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, gan gynnwys y gwasanaethau presennol hynny a fydd yn cael eu cadw.

Yn yr un modd â'r penodau ar asesiad poblogaeth yng Nghod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), ni fydd y canllawiau statudol drafft yn nodi cynulleidfa benodol ar gyfer y cynlluniau ardal. Mae hyn oherwydd y bydd y cynlluniau yn berthnasol i amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd o fewn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol, a allai ddatblygu neu newid dros amser. Dylai peidio â nodi cynulleidfa benodol alluogi'r cynlluniau ardal i gyrraedd ystod fwy eang o randdeiliaid perthnasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyriol o'r angen i ddefnyddio iaith syml yn y canllawiau statudol terfynol ac mewn unrhyw ddogfennau ychwanegol a gynhyrchir i gefnogi'r gwaith o lunio cynlluniau ardal. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod canllawiau yn ddigon manwl i alluogi iddynt fod yn offerynnau cynllunio defnyddiol i awdurdodau lleol a BILl wrth iddynt baratoi eu cynlluniau ardal ar y cyd.

## Cwestiwn 2:

| | 2. A yw cynnwys gofynnol cynlluniau ardal yn glir? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Cytuno i raddau | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 5 | 10 | 5 | 2 | 5 |

**Crynodeb**

Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr bod cynnwys gofynnol cynlluniau ardal yn glir ar y cyfan. Nododd Comisiynydd Plant Cymru a Thîm Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent fod y canllawiau drafft yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol ac yn caniatáu i wybodaeth o gynlluniau ardal fwydo i mewn i gynlluniau statudol eraill a, chan hynny, osgoi dyblygu.

Crybwyllodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bod lefel y manylder o fewn cynlluniau ardal yn destun pryder ac awgrymodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) y dylai'r canllawiau drafft ddarparu mwy o eglureb ar yr hyn sydd yn ofynnol. Mewn cyswllt â hyn, gofynnodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru ac eraill hefyd sut oedd cynlluniau ardal yn cyd-fynd â strategaethau comisiynu, ac amlygwyd hyn fel adran arall lle'r oedd angen mwy o eglurder.

Cwestiynodd ymatebwyr hefyd y gofynion yn y canllawiau statudol drafft a oedd yn ymwneud â chronfeydd cyfun. Gofynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cydweithredfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, am fwy o eglurhad ar yr adran hon o'r canllawiau drafft. Yn benodol, nododd ymatebwyr y bydd adegau yn codi pryd y bydd swyddogaethau yn cael eu cyflawni ar y cyd o ganlyniad i'r asesiad poblogaeth, ond ni fydd cronfa gyfun yn briodol nac yn angenrheidiol. Yn fwy cyffredinol, amlygwyd y cymhlethdod o sefydlu cronfeydd cyfun, ochr yn ochr â'r anawsterau o ran cytuno ar ba wasanaethau i'w cynnwys o fewn iddynt.

Credai rhai ymatebwyr nad oedd canolbwynt cynlluniau ardal yn glir. Amlygodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yr angen i gynlluniau ardal nodi'r gwasanaethau arfaethedig penodol mewn ymateb i bob thema graidd a'r camau y bydd partneriaid yn eu cymryd i flaenoriaethu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau, a bod hyn yn cwmpasu maes rhy eang.

Er y croesawyd y cynnig i gynnwys paragraff yn y canllawiau drafft sy'n nodi y dylai cynlluniau ardal gael eu drafftio gan ddefnyddio iaith syml, awgrymodd PAVO y dylid ehangu hyn i gyfeirio at unrhyw safonau neu ganllawiau cenedlaethol priodol y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mewn ymateb i'r sylwadau ar lefel y manylder oedd ei angen ar gyfer

cynlluniau ardal a sut maen nhw'n gysylltiedig â chomisiynu, mae'r rhan ar 'wasanaethau i'w trefnu neu eu caffael' yn y canllawiau drafft wedi'i diwygio i ddweud y dylai cynlluniau ardal hefyd nodi manylion y mathau o wasanaethau i'w trefnu neu eu caffael, heb danseilio'r broses gaffael ffurfiol. Dylai hyn dawelu pryderon y byddai angen i gynlluniau ardal bennu darparwyr penodol ar gyfer gwasanaethau, rhywbeth y gellid ei benderfynu yn ddiweddarach yn y cylch comisiynu. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru hefyd i egluro na ddylai cynlluniau ardal ar y cyd fod yn fwy na 130 o dudalennau, er y gellir llunio atodiadau ychwanegol ar wahân os oes angen. Dylai hyn roi rhagor o esboniad o lefel y manylder a ddisgwylir.

Er y cydnabyddir yr her o sefydlu cronfeydd cyfun, dylai hyn ffurfio rhan annatod o'r broses o ddatblygu cynllun ardal. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r adborth gan ymatebwyr, mae'r canllawiau statudol a rheoliadau partneriaeth Rhan 9, wedi'u diwygio i ganiatáu mwy o hyblygrwydd yn y gofyniad i sefydlu cronfeydd cyfun mewn ymateb i'r asesiadau poblogaeth. Er y gall cyrff partneriaeth barhau i sefydlu cronfeydd cyfun mewn ymateb i unrhyw swyddogaeth y maen nhw'n penderfynu eu cyflawni ar y cyd yn dilyn yr asesiad poblogaeth, dylid gwneud hyn dim ond pan gredir y bydd ffurfio trefniant partneriaeth yn briodol.

Mae'n bwysig bod cynlluniau ardal yn dod â'r themâu craidd a'r blaenoriaethau integreiddio o'r asesiad poblogaeth a'r byrddau partneriaeth rhanbarthol ynghyd er mwyn sbarduno'r agenda integreiddio. Fodd bynnag, yn rhan o'r gwaith o archwilio datblygiad offerynnau/dogfennau ychwanegol i gefnogi'r canllawiau statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r ffordd orau o gyflwyno'r blaenoriaethau eang hyn mewn cynlluniau ardal. Yn ogystal â hyn, mae'r canllawiau hefyd wedi'u diwygio i ddweud y dylai cynlluniau ardal ganolbwyntio ar weithio integredig wrth bennu'r gwasanaethau arfaethedig mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth.

O ran pwyslais, mae'r canllawiau drafft wedi'u diwygio i nodi y dylai cynlluniau ardal ganolbwyntio'n benodol ar sut y bydd partneriaid yn darparu gwasanaethau integredig o ran themâu craidd yr asesiad poblogaeth. Mae'r canllawiau hefyd wedi'u diwygio i nodi na ddylid cynnwys y thema graidd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cynlluniau ardal gan y bydd y thema hon yn cael ei chynnwys yn y cyd-strategaethau lleol sy'n ofynnol dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mewn ymateb i'r awgrym i gyfeirio at safonau neu ganllawiau cenedlaethol yn y canllawiau drafft, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu offerynnau/dogfennau ychwanegol i gefnogi'r canllawiau statudol ar gynlluniau ardal. Wrth ystyried y cymorth pellach hwn, edrychir ar y posibilrwydd o amlygu safonau cenedlaethol priodol o fewn yr offerynnau/dogfennau ychwanegol.

## Cwestiwn 3

| | 3. Mae'n rhaid ymgysylltu â dinasyddion yn y broses o gynnal asesiad poblogaeth. A ydych chi'n credu bod angen ymgysylltu â dinasyddion eto wrth lunio cynllun ardal? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Cytuno i raddau | Anghytuno i raddau | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 14 | 6 | 0 | 0 | 7 |

**Crynodeb**

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod angen ymgysylltu â dinasyddion wrth lunio cynlluniau ardal. Awgrymodd Age Cymru bod yn rhaid gwneud hyn er mwyn bodloni'r amcanion cyd-gynhyrchu o fewn y Ddeddf. Awgrymodd llawer hefyd, gan gynnwys Cŵn Tywys Cymru a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, y dylai dinasyddion gael y cyfle i roi sylwadau ar gynlluniau ardal drafft cyn iddynt gael eu cwblhau yn derfynol.

Er yr amlygwyd y pwysigrwydd o ymgysylltu â dinasyddion, credai llawer o ymatebwyr nad oedd o reidrwydd angen ymgysylltu o'r newydd ar raddfa fawr â dinasyddion yn ystod y cam cynllunio ardal. Dywedodd PAVO ac eraill y dylid bod wedi ymgysylltu'n eang â dinasyddion eisoes yn rhan o broses yr asesiad poblogaeth, a dylai'r data a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwnnw fod yn ddigon cadarn i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau ardal yn gywir heb angen ymgysylltu ymhellach. Gan adeiladu ar y pwynt hwn, credai rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r canllawiau drafft roi mwy o eglurhad ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn 'ymgysylltu rhesymol' â dinasyddion.

Ar adran 'Gofalwyr' y canllawiau drafft, awgrymodd PAVO y dylid cryfhau'r geiriad er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaethau weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau y trydydd sector sy'n gweithio gyda gofalwyr ac yn eu cefnogi i ymgysylltu â'r boblogaeth leol o ofalwyr. Credwyd y byddai hyn yn gwella 'cwmpas' y gweithgarwch ymgysylltu gofynnol â gofalwyr.

O ran adborth mwy cyffredinol, teimlai nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC y dylai pob rhanbarth benderfynu drostynt eu hunain sut i ymgysylltu â dinasyddion, gan y bydd llawer eisoes wedi sefydlu dulliau o ymgysylltu â dinasyddion yn eu hardaloedd nhw.

Cafwyd adborth hefyd gan y Comisiynydd Plant ar y penodau ar ymgysylltu â dinasyddion, gan nodi nad oedd digon o bwyslais ar gynnwys barn plant a phobl ifanc yn y canllawiau fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan PAVO o ran gofalwyr, mae'r adran ar ofalwyr yn y canllawiau wedi'i chryfhau i nodi y dylid hefyd ymgysylltu â mudiadau gofalwyr yn ystod y broses o ymgysylltu â gofalwyr yn yr ardal sydd angen neu a allai fod angen cymorth wrth ddatblygu cynlluniau ardal.

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn rhan bwysig o'r broses o gynllunio ardal a dylid ymgysylltu â dinasyddion wrth ddatblygu'r asesiadau poblogaeth a'r cynlluniau ardal. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r adborth o'r ymgynghoriad, mae'r canllawiau statudol wedi'u diweddaru i egluro nad oes angen ymgysylltu â dinasyddion ar raddfa mor eang wrth baratoi cynllun ardal o ganlyniad i'r ymgysylltu eang a wnaethpwyd yn rhan o'r gwaith o gynnal yr asesiad poblogaeth.

Er mwyn sicrhau bod digon o bwyslais ar ymgysylltu â phlant o fewn y canllawiau, mewn ymateb i bwyntiau amrywiol a godwyd gan y Comisiynydd Plant ar ymgysylltu â phlant, mae'r canllawiau wedi'u diwygio i ddangos yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol a BILl, yn unol â'r broses o greu asesiadau poblogaeth, sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd a gweithdrefn yn cael ei sefydlu i ymgysylltu â phobl yn yr ardal, <u>gan gynnwys plant</u> sydd ag anghenion neu a allai fod ag anghenion gofal a chymorth.

Mewn ymateb i Age Cymru, mae'r canllawiau drafft wedi'u diwygio i gyfeirio at Adran 16 (1)(c) o Ddeddf 2014 sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo cyfranogiad unigolion y darperir gwasanaethau gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol ar eu cyfer, wrth lunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno.

Yn fwy cyffredinol, bydd cynlluniau ardal yn cael eu rhoi ar waith gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol, ac mae'n rhaid i aelodaeth y rhain gynnwys cynrychiolwyr sy'n ddinasyddion. Dylai hyn hefyd sicrhau yr ymgysylltir â dinasyddion wrth lunio cynlluniau ardal drafft.

Mewn ymateb i awgrym Parciau Cenedlaethol Cymru i Awdurdodau Parc Cenedlaethol fwydo i mewn i gynlluniau ardal drafft, mae'r adran ar 'ymgysylltu â dinasyddion' yn y canllawiau drafft wedi'i hehangu i ddweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol a BILl ymgysylltu â sefydliadau cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector wrth baratoi cynllun ardal. Dylai hyn sicrhau bod awdurdodau lleol a BILl yn ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau wrth baratoi cynlluniau ardal.

## Cwestiwn 4:

| **4. Pa drefniadau eraill yn eich barn chi y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi ymhellach y rhai sy’n llunio cynlluniau ardal?** |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Credai llawer o ymatebwyr y byddai templed neu becyn cymorth i gefnogi’r canllawiau o gymorth i ddatblygu cynlluniau ardal, gan gynnwys awgrym gan Gyngor Trydydd Sector Caerdydd y byddai rhestr wirio o’r cynnwys y dylid ymdrin ag ef mewn cynlluniau ardal o gymorth i leihau amrywiaeth. Gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan awgrym pellach y byddai rhwydwaith i rannu dysgu ac arferion gorau posibl wrth ddatblygu cynlluniau ardal yn cael ei groesawu.<br><br>Fel pwynt cyffredinol, amlygodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn egluro’r lefelau o gyllid a fydd ar gael yn ystod y blynyddoedd i ddod, megis y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF). Dywedodd llawer o ymatebwyr fod egluro lefelau’r cyllid, ac ymrwymo i setliadau ariannol aml-flwyddyn pan fo hynny’n bosibl yn hanfodol i gynorthwyo awdurdodau lleol a BILl i lunio cynlluniau ariannol mewn ymateb i’r asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal.<br><br>Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC ei bod hi’n debygol, o ystyried bod y prosesau o ddatblygu asesiadau poblogaeth a gweithio rhanbarthol o dan y Ddeddf yn newydd, y bydd angen mireinio’r cynlluniau ardal cyntaf sydd i’w cyflwyno erbyn mis Ebrill 2018 ymhellach ar ôl eu cyflwyno.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br><br>Yn dilyn datblygu’r canllawiau statudol a’r rheoliadau terfynol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu archwilio datblygiad offerynnau ychwanegol i gefnogi cynlluniau ardal. Gallai hyn, o bosibl, gynnwys datblygu ychwanegiad i’r pecyn cymorth a’r rhestr wirio a ddatblygwyd i gefnogi datblygiad yr asesiadau poblogaeth.<br><br>Roedd y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, yn cynnwys ymrwymiad i gadw’r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF). Mae Cyllideb Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £50 miliwn ychwanegol o arian refeniw i’r ICF y flwyddyn nesaf, yn ogystal â £10 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer pob un o’r pedair blynedd nesaf.<br><br>Mewn ymateb i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC, mae’r canllawiau statudol drafft eisoes yn nodi y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn y cynllun ardal yn cael eu gwerthuso o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol llywodraeth leol. Felly, gall cynllun ardal gael ei ddiwygio yn ystod y cyfnod gwerthuso hwn os yw’r bwrdd yn credu bod angen gwneud hynny. |

## Cwestiwn 5:

| 5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydynt wedi cael sylw penodol, cewch eu nodi yma: |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Codwyd materion gan Age Cymru a Chynghrair Henoed Cymru ynghylch ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau trydydd sector cenedlaethol. Pwysleisiodd y ddau sefydliad yr angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol fod yn ymwybodol o'r sefydliadau cenedlaethol hyn a sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â nhw wrth baratoi cynlluniau ardal.<br><br>Amlygodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yr angen i gynhyrchu canllawiau trosfwaol ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, IMTPs ac Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau cysondeb yn yr holl fframweithiau cynllunio.<br><br>Amlygodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru y gofyniad i asesiadau poblogaeth gael eu cymeradwyo'n llawn gan y cyngor, ac y gallai hyn gyflwyno peryglon pe byddai angen i un cyngor wneud newidiadau sylweddol, a gofynnwyd i hyn gael ei ystyried wrth ystyried y gofynion cymeradwyo ar gyfer cynlluniau ardal.<br><br>Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn nad oedd hi'n glir lle y byddai cynlluniau ardal yn cael eu cyhoeddi na sut byddant yn cael eu hyrwyddo i'r cyhoedd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd sicrhau y gall y rhai nad oes ganddynt fodd i weld cynnwys ar-lein weld y cynlluniau er hynny.<br><br>Amlygodd Iechyd Bae'r Gorllewin a'r Gydweithredfa Gofal Cymdeithasol ddeilliannau dysgu yn eu hymateb a phwysleisiwyd yr angen i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn sgil cydweithredu ac ymgysylltu i helpu i wella cylchoedd cynllunio ardal yn y dyfodol.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br><br>Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynglŷn ag ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector cenedlaethol, mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio i ddweud y gall y sefydliadau yr ymgysylltir â nhw yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector fod yn rhai cenedlaethol neu leol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella sut mae'r amrywiaeth o ganllawiau statudol ar gynlluniau a strategaeth yn cysylltu â'i gilydd. Fel yr amlinellwyd ynghynt yn yr ymateb i gwestiwn 1, mae'r canllawiau wedi'u hegluro ymhellach er mwyn nodi'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau ardal a'r strategaethau sydd eu hangen dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod. Bydd cysylltiadau rhwng cynlluniau ardal a fframweithiau cynllunio eraill yn parhau i gael eu hystyried wrth i offerynnau cael eu datblygu i gefnogi cynlluniau ardal. Bydd dogfennau ategol ychwanegol yn cael eu datblygu pan fydd angen ar |

gyfer cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol a’r BILl sy’n datblygu cynlluniau ardal.

O ran trefniadau cyhoeddi, mae’r canllawiau wedi’u gwneud yn glir i nodi bod yn rhaid cyhoeddi’r cynllun ardal cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018 a’i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar adeg ei gyhoeddi.

O ran y datblygiad o offerynnau ychwanegol i gefnogi’r canllawiau, bydd ymarferiad i ddysgu gwersi o broses yr asesiad poblogaeth yn cael ei gynnal yn ystod 2017. Nod hwn fydd talu sylw i unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu’r adroddiadau a dylai amlygu unrhyw faterion a allai gael eu cymhwyso i ddatblygiad cynlluniau ardal. Dylai ymarferiad dysgu tebyg gael ei gynnal ar ôl i’r cynlluniau ardal cyntaf gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018.

Yn wahanol i’r bennod ar asesiad poblogaeth yng Nghod Arfer Rhan 2, nid yw’r canllawiau drafft yn cynnwys unrhyw drefniadau cymeradwyo penodol ar gyfer cynlluniau ardal ar hyn o bryd.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol Y | N | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | ✓ | Richard Ebley | Amherthnasol |
| 2. | ✓ | | Dienw | Amherthnasol |
| 3. | | ✓ | Sara James | Prifysgol De Cymru, myfyriwr |
| 4. | | ✓ | Peter Lathbury | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) |
| 5. | ✓ | | Dienw | Amherthnasol |
| 6. | | ✓ | Rachel Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg |
| 7. | | ✓ | Hannah Buck | Parciau Cenedlaethol Cymru |
| 8. | | ✓ | Dr Roseanne Palmer | Age Cymru |
| 9. | | ✓ | Amanda Lewis, Rhiannon Jones, Carl Cooper | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys |
| 10. | | ✓ | Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru |
| 11. | | ✓ | Martyn Palfreman | Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| 12. | | ✓ | Jenny Williams/Bethan Jones-Edwards | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru |
| 13. | | ✓ | Sara Harvey | Cydweithredfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin |
| 14. | | ✓ | Dr Jane Fenton-May | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol |
| 15. | | ✓ | Rachel Lewis | Cynghrair Henoed Cymru |
| 16. | | ✓ | yr Athro Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| 17. | | ✓ | Rhian Nowell-Phillips | RNIB Cymru |
| 18. | | ✓ | Jakob Stenkvist | National Community Hearing Association |
| 19. | | ✓ | Sarah Capstick | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd |
| 20. | | ✓ | Judith Paget | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 21. | | ✓ | Dr Rodney Berman | BMA Cymru |
| 22. | | ✓ | Nicola Evans | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 23. | | ✓ | Peter Meredith-Smith | Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| 24. | | ✓ | Neil Ayling and Steve Thomas | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC |
| 25. | | ✓ | Sally Baxter | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 26. | | ✓ | Phil Diamond | Tîm Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwent |
| 27. | | ✓ | Simon Boddis | NOMS Cymru |